# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG, 11 MAWRTH, 2009

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Ieuan Roberts, (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Selwyn Griffiths, (Cyngor Gwynedd), ynghyd â'r Mri Gwyn Davies (Cyngor Tref Porthmadog), Dr John Jones Morris, (Buddiannau Hamdden) a Robert Owen, (Buddiannau Masnachol).

**HEFYD YN BRESENNOL:** Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), ac Ioan Hughes (Swyddog Pwyllgor).

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Alwyn Gruffydd, Dyfed Edwards**,** Cadeirydd Bwrdd y Cyngor), Dai Rees Jones (Is-gadeirydd Bwrdd Y Cyngor), Peter Lunt Williams (Sefydliad y Bad Achub), Trefor Jones, (Harbwr Feistr).

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 24 Medi, 2008 fel rhai cywir.

## 3. MATERION YN CODI O'R COFNODION

Nodwyd fod yr angen am ychwaneg o angorfeydd pontŵn yn parhau ac yr oedd cynrychiolydd 'buddiannau hamdden' yn hyderus nad oedd angen pryderu am brinder lle rhwng y llithrfa a'r cychod. Pwysleisiodd mai'r bwriad oedd sicrhau lle addas i gychwyr lleol ac ymwelwyr.

Nid oedd gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig wrthwynebiad mewn egwyddor i'r cais ac yr oedd yn ymwybodol o awydd y Clwb Hwylio i hyrwyddo'r harbwr. Cyfeiriodd y swyddog hefyd at yr angen i roi sylw i'r defnydd a wneir o'r llithrfa a byddai modd rhoi ystyriaeth bellach i'r mater maes o law. Ychwanegodd fod cydweithio rhwng y Clwb Hwylio, Y Cyngor a'r Sector Breifat yn hanfodol.

Nodwyd na fyddai modd gwneud unrhyw ddatblygiad hyd y gaeaf nesaf beth bynnag fyddai'r penderfyniad terfynol.

**PENDERFYNWYD y dylai'r Cyngor, Y Clwb Hwylio a'r Sector Breifat gynnal trafodaethau pellach fel y gellir symud ymlaen i gael ychwaneg o angorfeydd pontŵn os ydynt oll yn gytûn.**

## 4. ADRODDIAD Y GWASANAETH MORWROL

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig a rhoddwyd ystyriaeth i'r materion canlynol yn unigol:

***Ffioedd a Thaliadau***

O safbwynt Harbwr Porthmadog 'roedd bwriad i gynyddu 3% ar daliadau'r rhai sy'n byw yn barhaol yng Ngwynedd gyda'r cynnydd i'r rhai o'r tu allan i'r sir yn 4%. Ychwanegodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y bydda'r gostyngiad yn y Trethl Ar Werth o 17.5% i 15% yn sicrhau y bydd cost net y defnyddwyr yn gostwng.

Rhagwelir y bydd graddfa chwyddiant ar gyfer harbyrau Gwynedd yn 2008/09 yn 2.67% sy'n cyfateb i gynnydd o £7,540 yn nharged incwm cyflawn yr harbyrau yn 2009/10.

Llwyddwyd i gyrraedd y targed yn Harbwr Porthmadog am nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, o ystyried y sefyllfa bresennol, pwysleisiodd y swyddog y bydd angen cymryd camau pellach i sicrhau y gellir cyrraedd y targedau gwariant ac incwm heb ostwng safonau.

'Roedd y swyddog yn falch o nodi nad oedd bwriad i gynyddu ffioedd lansio a chofrestru cychod pŵer a Badau Dŵr Personol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Disgwylir y bydd hyn yn annog mwy i ddefnyddio cyfleusterau ardal Porthmadog. Pwysleisiodd y swyddog fod y system gofrestru'n allweddol, ac yr oedd yn awyddus i weld yr holl ddefnyddwyr yn cydymffurfio â rheolau'r Cyngor.

Ychwanegodd y swyddog fod cynnydd cyflawn o £51,020 yn nharged incwm yr Uned Forwrol ar gyfer 2009/10. O ganlyniad, cyfanswm targed incwm yr Uned fydd £2,121,900.

Esboniodd y swyddog fod disgwyl i'r ffioedd a thaliadau ar gyfer 2009/10 gael eu cadarnhau gan y Swyddogion Statudol ac Arweinydd Portffolio'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes.
Anfonwyd copi drafft o'r ffioedd a'r taliadau i'r holl gwsmeriaid er sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r holl newidiadau.

***Cyllidebau***

Adroddwyd ar sefyllfa ariannol Harbwr Porthmadog ar 31 Ionawr 2009.
Y targed incwm ar gyfer 2008/09 oedd £78,260, a hyd at ddiwedd Ionawr 2009 cyfanswm yr incwm oedd £75,890. Nid oedd disgwyl i'r incwm yn ystod Chwefror a Mawrth fod yn sylweddol, ond yr oedd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn hyderus y bydd y targed incwm ychydig yn uwch na'r targed ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Nodwyd gan y swyddog fod y sefyllfa yma yn rhagorol.

Mewn ymateb i ymholiad, esboniwyd y byddai holl harbyrau Gwynedd yn cael eu hystyried yn unol er sicrhau cydbwysedd ariannol.

Mynegwyd pryder gan y swyddog gan fod y gwariant yn uwch na'r gyllideb mewn sawl maes. Yn ogystal rhagwelir y bydd angen gwariant pellach yn ystod mis Chwefror a Mawrth.

Atgoffwyd aelodau fod cyllideb 'NT 53 12 01' (£12,050) wedi ei sefydlu ar gyfer mân welliannau o fewn yr harbwr. 'Roedd hyn yn cynnwys, gwelliant i'r cyfleusterau disel, sydd bellach wedi ei orffen, ymestyn y llithrfa, adnewyddu cadwyni a gwella cyfleusterau storio.

O ystyried y sefyllfa ariannol bresennol a'r her sy'n wynebu'r Cyngor, pwysleisiodd y swyddog y bydd 2009/10 yn flwyddyn hynod anodd i'r Uned Forwrol . Ychwanegodd y bydd rhaid goresgyn unrhyw orwariant neu ddiffyg ariannol.

***Mordwyo/Angorfeydd***

Arhosodd y rhan helaethaf o'r cymhorthion mordwyo sy'n arwain i Harbwr Porthmadog ar eu safleoedd ar gychwyn 2009. Ychwanegodd y swyddog fod mwy o adnoddau ar gael i fonitro'r sianel yn rheolaidd

Cyfeiriodd at newidiadau sylweddol sy'n ymddangos yn y sianel gyferbyn ag ardal 'Cwt Powdwr'. Mae'r Uned Forwrol yn cynghori morwyr i fod yn ofalus wrth fordwyo yn y fan yma.

Cyfeiriodd y swyddog at y gwaith cynnal a chadw a wnaed ar gymhorthion mordwyo a'r gwaith pellach sydd ar y gweill. Nodwyd fod pob llusern wedi cael eu cadw ar eu safleoedd yn ystod misoedd y gaeaf ac yr oedd y swyddog yn credu fod hyn wedi bod o fudd . 'Roedd y swyddog yn fawr obeithio parhau gyda'r trefniant ar gyfer y gaeaf nesaf.

Cwblhawyd gwaith cynnal a chadw ar fwi y sianel fordwyo a chaiff ei dychwelyd i'w safle yn ystod y gwanwyn. Bydd yr Harbwr Feistr a Swyddog Morwrol Harbyrau yn paratoi ar gyfer gosod bwi cyn gŵyl y Sulgwyn eleni.

Adroddodd y swyddog ymhellach fod yr holl angorfeydd yn cael eu harchwilio a'u hadnewyddu fel y byddant yn gadarn a diogel ar gyfer y tymor hwylio. Gwahoddwyd contractwyr cymwysedig i gyflwyno amcangyfrif ar gyfer y gwaith a derbyniwyd y dyfynbris isaf o £2,750. Bydd cost o £650 am adlinio angorfeydd yn ychwanegol.

Adroddwyd y bydd cost y cadwyni a gefynnau gaiff eu defnyddio fel rhan o'r gwaith cynnal a chadw ar angorfeydd a chymhorthion mordwyo o fewn Harbwr Porthmadog yn ystod y Gwanwyn 2009 yn £4,000. Nodwyd gan y swyddog fod hwn yn sylweddol uwch na'r cyfanswm o £2,800 yn 2008.

Archwiliwyd holl angorfeydd ym Morth y Gest gan yr Harbwr Feistr ac ni fydd angen symud yr un ohonynt yn ystod y gaeaf.

***Gweithwyr***

Cyfeiriodd y swyddog at rai newidiadau fydd yn digwydd o fewn yr Uned, ond nodwyd na fyddai hyn yn amharu ar y gwasanaeth. Ychwanegodd y byddai penderfyniadau anodd i'w gwneud ond nad oedd yn rhagweld y byddai toriadau ym Mhorthmadog.

O safbwynt y dyletswyddau pwysleisiodd fod angen i'r gweithwyr ddefnyddio'r cwch yn amlach fel y bydd cleiantau yn gweld fod gwaith yn cael ei wneud i sicrhau rheolaeth. Ychwanegodd y byddai'n her i wella safon gwasanaeth mewn cyfnod ariannol anodd a bod hyn yn galw am agwedd frwd a phroffesiynol holl staff yr Uned Forwrol.

***Is-ddeddfau Harbwr***

Eisoes cymeradwywyd yr Is-ddeddfau Harbwr gan aelodau'r pwyllgor hwn, ond nid ydynt wedi eu cadarnhau a'u mabwysiadu.

Cyfeiriodd y swyddog at y siom ac anfodlonrwydd a fynegwyd gan aelodau'r Pwyllgor hwn yn y gorffennol oherwydd yr oedi a fu o safbwynt mabwysiadu'r Is-ddeddfau. Nododd fod Cyngor Gwynedd wedi gweithio'n fanwl ar y mater am beth amser.

Ymhelaethodd y swyddog ar waith pellach a wnaed fel rhan o'r broses ymgynghori angenrheidiol. Anfonwyd yr Is-ddeddfau drafft at Gangen Gwaith ac Amgylchedd yr Adran Harbyrau yn yr Adran Drafnidiaeth yn Llundain. Yn ogystal 'roedd y Gangen Gwaith ac Amgylchedd wedi ymgynghori ymhellach gyda Thŷ'r Drindod a'r Gymdeithas Hwylio Frenhinol a chymharu'r addasiadau a awgrymir /angenrheidiol i'r Is-ddeddfau drafft.

Cadarnhawyd y caiff yr Is-ddeddfau drafft diwygiedig eu cylchreded i aelodau'r pwyllgor hwn cyn gynted a bo modd.

***Rheoliadau Llongau Drafft***

Adroddodd y swyddog ar waith ymgynghorol sy'n cael ei wneud gan yr Adran Drafnidiaeth ar hyn o bryd ynglŷn â rheoliadau i eithrio morwyr amatur mewn categorïau penodol o longau o'r drosedd o fod dros y lefel o alcohol a ganiateir.

Ar ôl ystyried barn asiantaethau gorfodi morwyr hamdden a'r cyhoedd, penderfynodd y Gweinidogion ar eithriad i bobl ar gychod oedd yn fyrrach na 7 medr ac nad oedd ganddynt y gallu i deithio'n gyflymach na 7 milltir môr.

Nodwyd gan aelod fod rhai yn yfed llawer o alcohol ac yna'n defnyddio cychod. Croesawyd y bwriad i gyflwyno'r rheoliadau newydd.

**PENDERFYNWYD gofyn i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig gyfleu cymeradwyaeth y Pwyllgor Ymgynghorol hwn i'r rheoliadau a gyfeirir atynt uchod.**

***Canlyniadau Barn Cwsmer***

Mynegwyd siom gan y swyddog mai dim ond hanner defnyddwyr angorfeydd Porthmadog oedd wedi ymateb i'r holiadur, ond pwysleisiodd aelodau fod ymateb o'r fath yn galonogol.

Ymysg yr ymatebion nodwyd bod 33% yn credu fod safon gwasanaeth yr harbwr yn ardderchog a 43% yn adrodd ei fod yn dda. Nid oedd unrhyw un wedi ei nodi fel bod yn wael.

'Roedd 66% yn credu fod mesurau diogelwch yn ddigonol yn yr harbwr a 22% yn nodi nad oedd digon o fesurau diogelwch.

Gwelwyd bod 80% yn credu fod costau a ffioedd angorfeydd yn adlewyrchu gwasanaeth teg. O safbwynt glendid yr harbwr credai 16% ei fod yn ardderchog gyda 58% o'r farn ei fod yn dda.

Rhoddwyd cyfle i'r defnyddwyr restru'r gwasanaethau neu gyfleusterau fyddent yn hoffi ei gael yn yr harbwr. Cadarnhawyd y byddai'r Uned Forwrol yn rhoi sylw i'r sylwadau a wnaed ac yn ymdrechu i wella mannau lle mae angen gwelliant.

***Pibell Arllwys Borth y Gest***

Dywedodd y swyddog fod y bibell arllwys sy'n llifo i'r sianel mordwyo wedi bod yn achos pryder ers nifer o flynyddoedd. Yn dilyn rhai trafferthion pellach, cadarnhawyd fod y gwaith wedi cychwyn a chroesawyd hyn gan yr aelodau.

***Cyfarfod***

Cyfeiriodd aelod at gyfarfod a gynhaliwyd rhwng y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig a Chyfeillion Morfa Bychan.

Diolchodd aelod i'r swyddog am ei barodrwydd i fynychu cyfarfod y Cyfeillion.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gyda diolch i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig a gweithwyr yr Uned am eu gwaith a llwyddiant y flwyddyn.**